cartrefi gwell, dyfodol disglair
better homes, brighter future

**DATGANIAD I'R WASG**
**Rhagfyr 2009**

# Tai Ceredigion yn mynd yn fyw

Mae trosglwyddo cartrefi Cyngor Ceredigion i Dai Ceredigion wedi digwydd yn swyddogol ar 30 Tachwedd.

Daeth y trosglwyddiad yn sgil ymgynghoriad mawr a gynhaliwyd gan y Cyngor a arweiniodd at fod tenantiaid yn cefnogi'r cynllun mewn pleidlais y llynedd.

Meddai Hag Harris, Cadeirydd Bwrdd Tai Ceredigion: "Nawr mae'r gwaith caled yn dechrau. Mae tenantiaid wedi ymddiried ynom yn fawr ac fe gadwn ni bob addewid a wnaed. Rydym wedi dechrau darparu'r gwasanaeth tai ac yn y Flwyddyn Newydd byddwn yn cyhoeddi cynlluniau manylach ar gyfer cyflawni'r rhaglen o welliannau gwerth £40m i gartrefi yn ystod y pum mlynedd nesaf. Mae hyn yn adeg gyffrous i bawb sydd â rhan yn y mater."

Mae'r gymdeithas tai ddi-elw newydd yn gyfrifol am reoli dros 2,300 o gartrefi, 140 o anheddau lesddaliadol ac mae'n cyflogi dros 100 o aelodau staff.

Mae Tai Ceredigion wedi'i leoli yn Uned 4, Parc Busnes Pont Steffan, Heol yr Orsaf, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7HH hyd nes y caiff lle parhaol ei godi ar safle cyfagos. Gellir cysylltu â nhw ar 0345 606 7654 neu drwy'r wefan www.taiceredigion.gov.uk.

**DIWEDD**